Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# ‘Beth sy'n Wahanol?’
# Yr Hanfodion
## Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion

# Mae'r sesiwn hon

- **Yn gyflwyniad**
  i'r gweithdrefnau newydd i staff amlasiantaethol, gan gynnwys pam a sut y cawsant eu llunio
- **Yn nodi'r prif newidiadau**
  a fydd yn effeithio ar staff sy'n rhan o'r broses o hysbysu am faterion yn ymwneud â diogelu

# Nid yw'r sesiwn hon

- **Yn hyfforddiant manwl**
- Wedi'i bwriadu ar gyfer staff sy'n cynnal ymholiadau ac ymchwiliadau awdurdod lleol
- Wedi'i bwriadu ar gyfer staff sy'n ymgymryd â rôl Cydlynydd Arweiniol neu Ymarferydd Arweiniol (Awdurdod Lleol ac Iechyd)

# Dull hyfforddi tri cham Gwent:

## Rhoi ar waith

- Ebrill 6, 2020
- Mae deunyddiau hyfforddi cenedlaethol ar gael gan Fwrdd Diogelu Cymru drwy wefan Gofal Cymdeithasol Cymru

## **Cam 1** (Ebrill – Hydref 2020)

- Sesiynau briffio amlasiantaethol
(Wedi'u cyflwyno gan Ddiogelu Gwent)

# Cam 2

- Cyrsiau diogelu diwrnod cyfan sy'n ymgorffori'r gweithdrefnau newydd ar gyfer unrhyw rai y bydd angen iddynt ddiweddaru eu hyfforddiant lefel 2 blaenorol.

# Cam 3

- Sesiynau briffio/hyfforddiant penodol ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol, Cydlynwyr Arweiniol, a Derbynnydd yr Hysbysiad yn yr ALl ac iechyd
- Wedi'u cyflwyno yn fewnol o fewn yr ALl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yr Heddlu

# Gweithdrefnau Diogelu Cymru

- **Wedi'u llunio gan** Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, mewn cydweithrediad â'r 5 Bwrdd Diogelu Rhanbarthol arall ac wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru
- **Y cydweithrediad mawr cyntaf** rhwng y 6 Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ers iddynt gael eu cyflwyno gan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*
- Roedd **Bwrdd Prosiect Cenedlaethol** yn goruchwylio'r gwaith o lunio'r gweithdrefnau; roedd yn cynnwys aelodau o'r 6 Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru.

# Yn cymryd lle yr holl weithdrefnau blaenorol


~~Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008~~

~~Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed rhag cael eu Cam-drin 2010 (diweddarwyd 2013)~~

# Nid yw Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael mewn print. Maent ond ar gael **yn ddigidol**…

**Ap Am Ddim**




**Gwefan**

[diogelu.cymru](diogelu.cymru)

[safeguarding.wales](safeguarding.wales)

# Gweithdrefnau Diogelu Cymru

## Gweithdrefnau ar gyfer diogelu OEDOLION MEWN PERYGL

5 Adran + Awgrymiadau ar gyfer Ymarfer

I'w datblygu

## Gweithdrefnau ar gyfer diogelu PLANT

5 Adran + Awgrymiadau ar gyfer Ymarfer

Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

**Dewis iaith** Cymraeg / Saesneg

**Chwilio** am air neu bwnc

**Cefndir / Cyflwyniad** i Weithdrefnau Diogelu Cymru

Gweithdrefnau ar gyfer diogelu **Plant a Phobl Ifanc**

Gweithdrefnau ar gyfer diogelu **Oedolion mewn Perygl**

**Gwefannau** yr holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol

Rhestr **termau**

Mae'n cynnwys **e-bost** i roi gwybod am unrhyw broblemau

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Gweithdrefnau ar gyfer diogelu **Oedolion mewn Perygl**

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Adrannau: 1-4

Gweithdrefnau Diogelu ar gyfer Oedolion mewn Perygl

# Adran 1

Mae pob tudalen yn darparu **manylion rolau, cyfrifoldebau** a'r **hyn a ddisgwylir** gan ymarferwyr...

… ac **adnoddau a gwybodaeth** bellach…

…gyda **thermau** wedi'u huwcholeuo

…**dolenni allanol**

…ac **Awgrymiadau ar gyfer Ymarfer, adnoddau ychwanegol**

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Awgrymiadau ar gyfer Ymarfer

Gwybodaeth, canllawiau ac adnoddau am ***sut*** i ddiogelu'n effeithiol

" **Efallai yr hoffech chi gymryd saib** ar y pwynt hwn yn y cyflwyniad i lawrlwytho'r ap neu agor y wefan ac ymgyfarwyddo ag adrannau a nodweddion Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

www.diogelu.cymru

Chwiliwch am: Gweithdrefnau Diogelu Cymru

# Ymarferydd

**TERM CYFFREDINOL** i ddisgrifio unrhyw un sydd, drwy ei waith, yn dod i gysylltiad ag oedolion mewn perygl :

- mewn **cyflogaeth â thâl** (staff dros dro, myfyrwyr, hyfforddeion, staff achlysurol, staff asiantaeth, cynorthwywyr personol o dan gynllun y taliad uniongyrchol, ac ati)
- gweithwyr / gofalyddion **di-dâl**
- **gwirfoddolwyr**
- gweithwyr **hunangyflogedig**
- unigolyn **wedi'i gontractio** i ddarparu gwasanaethau

# Sicrhau bod ymarfer yn adlewyrchu canllawiau statudol yn gywir

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 7 Diogelu
- Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl
- Cod Ymarfer o dan Ran 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddfwriaeth, canllawiau a phrotocolau perthnasol eraill

# Sicrhau bod proses ac ymarfer yn cael eu safoni ar draws pob asiantaeth

**dull** cyson o weithredu

**systemau** cyson

**prosesau** cyson

**terminoleg** cyson

# Darparu disgwyliadau clir ar gyfer ymarfer diogelu drwy...


- Helpu ymarferwyr i **gymhwyso** deddfwriaeth a chanllawiau statudol gan esbonio **beth** yw eu cyfrifoldebau a **sut** i'w cyflawni
- Annog **ymarfer myfyriol** gyda newid sylweddol o weithdrefnau rhagnodol i bwyslais ar arfer **barn broffesiynol**
- **Cryfhau ac egluro'r** gweithdrefnau y mae'n rhaid i **bawb** eu dilyn er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau a'u cymhwyso

# Newid mewn Ethos

*Cyn*

## "Crib y Rhewfryn"

- Arwyddion a symptomau **amlwg**
- Pryderon **penodol**
- Effaith **arwynebol**
- Canlyniadau **amhenodol**



*Nawr*

## "O Dan y Dŵr"

- achosion **sylfaenol**
- **patrymau** ymddygiad
- cymhelliant a gallu
- canlyniadau **ystyrlon**

# Newid mewn Dull

Cyn:

Ffocws → **Gwasanaeth**

Oedolion mewn perygl yn cael eu gweld fel '**gwrthrychau pryder**'

Proses a wneir ***iddynt*** yw diogelu – 'cynnal ymchwiliad' 'cwblhau ymholiadau' 'rhif achos'

Ymholiadau'n cael eu cynnal **heb** ystyried **anghenion unigryw'r** oedolyn

Nawr:

Ffocws → **Oedolyn mewn perygl**

**Ymgysylltu** â'r oedolyn, ei ofalwyr a'i deulu


**Galluogi'r** oedolyn i wybod pa wahaniaeth y gellir ei wneud i'w brofiad

Mae ymholiadau yn **gwella** ei amgylchiadau mewn ffordd **ystyrlon**

# Atal ac Ymyrryd yn Gynnar

**Newid mewn pwyslais** a dull rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar leihau'r angen am ymyrraeth ac ymholiadau diogelu drwy:

- **amddiffyn** oedolion rhag dod yn oedolion mewn perygl
- mynd i'r afael â phryderon **yn gynnar**
- **osgoi uwchgyfeirio** problemau
- **lleihau'r angen am** ddiogelu
- darparu **buddiannau hirdymor** ar gyfer iechyd a lles yr oedolyn




Rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA)** sy'n:

- hyrwyddo **ymyrryd yn gynnar ac atal**
- pwysleisio **eiriolaeth** a **chydgynhyrchu**
- rhoi gwybodaeth a chyngor i'r cyhoedd i **atal anawsterau rhag datblygu** i fod yn sefyllfaoedd lle mae angen ymyrraeth fwy dwys, arbenigol

**Gwybodaeth** – helpu unigolyn i wneud **dewis ar sail gwybodaeth** am ei lesiant.

**Cyngor** – gweithio mewn ffordd **gydgynhyrchiol** ag unigolyn i archwilio opsiynau, gan sicrhau ei fod yn deall yr hyn sydd ar gael iddo, a'i **gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau** am yr hyn sy'n bwysig iddo a'r canlyniadau personol yr hoffai eu cyflawni.

**Cymorth** – **gweithredu** gyda'r unigolyn i gael gafael ar ofal a chymorth, neu ofalydd i gael gafael ar gymorth



**Gwybodaeth** – helpu unigolyn i wneud **dewis ar sail gwybodaeth** am ei lesiant.

**Cyngor** – gweithio mewn ffordd **gydgynhyrchiol** ag unigolyn i archwilio opsiynau, gan sicrhau ei fod yn deall yr hyn sydd ar gael iddo, a'i **gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau** am yr hyn sy'n bwysig iddo a'r canlyniadau personol yr hoffai eu cyflawni.

**Cymorth** – **gweithredu** gyda'r unigolyn i gael gafael ar ofal a chymorth, neu ofalydd i gael gafael ar gymorth

If you are concerned about abuse or neglect please contact the following:

**Blaenau Gwent**
Tel: 01495 315700
Email: DutyTeamAdults@blaenau-gwent.gov.uk

**Caerphilly**
Tel: 0808 100 2500
Email: IAAAdults@caerphilly.gov.uk

**Torfaen**
Tel: 01495 762200
Email: socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

**Newport**
Tel: 01633 656656
Email: firstcontact.adults@newport.gov.uk or pova.team@newport.gov.uk

**Monmouthshire**
Tel: 01873 735492
Email: MCCadultsafeguarding@monmouthshire.gov.uk

If it is an emergency and you need to contact us outside of office hours please call our
Team on 0800 328 4432.

## What will happen if you report the abuse?

We will provide you with the support and advice you need to help you to make any de
you in taking action to end the abuse and ensure that it doesn't happen again.

What you tell us will be treated sensitively but we may have to tell other people to hel
the concern.

If abuse is reported to social services, we may arrange for an investigation to take plac

Report an adult at risk

**Useful Links**

- Duty to Report Form
- Duty to Report Form (printable version)

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

ar gyfer diogelu oedolion mewn perygl

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

- Cydgynhyrchu
- Ymgysylltu
- Profiad Beunyddiol
- Eiriolaeth
- Trothwyon
- Cydsyniad

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

- **Cydgynhyrchu**
- Ymgysylltu
- Profiad Beunyddiol
- Eiriolaeth
- Trothwyon
- Cydsyniad

Pwyslais cryf ar

- **ymgysylltu** â'r oedolyn i ddod o hyd i'r ffordd orau o ddiwallu anghenion
- **cefnogi / gweithio gyda'r** oedolyn fel partner cyfartal
- gweld a gwrando
- ei **rymuso** i **gadw rheolaeth** dros ei fywyd
- llunio atebion **arloesol**

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

- Cydgynhyrchu
- **Ymgysylltu**
- Profiad Beunyddiol
- Eiriolaeth
- Trothwyon
- Cydsyniad

**Mae ymgysylltu effeithiol yn golygu:**

- galluogi'r unigolyn i **ddeall** pryderon yr ymarferydd
- rhoi **amser a chyfleoedd** iddo fynegi ei ddymuniadau, ei deimladau a'i farn
- ystyried ei **farn** o ddifrif
- **cydbwyso** ystyriaethau o ran galluedd a dyletswydd gofal â'i hawl i benderfynu drosto ef ei hun

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

- Cydgynhyrchu
- Ymgysylltu
- **Profiad Beunyddiol**
- Eiriolaeth
- Trothwyon
- Cydsyniad

Pwysleisio'r angen i **ddeall yn glir**

- sut beth yw **diwrnod** cyffredin ym mywyd yr unigolyn
- sut mae'n **teimlo** am ei fywyd
- beth yr hoffai ei **newid**
- beth sy'n **bwysig** iddo
- beth yr hoffai ei **gyflawni**
- ei **ganlyniadau personol**

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

- Cydgynhyrchu
- Ymgysylltu
- Profiad Beunyddiol
- **Eiriolaeth**
- Trothwyon
- Cydsyniad

Pwyslais cryf ar sicrhau y caiff **llais** yr oedolyn ei gefnogi a'i gynrychioli

- gwneir penderfyniadau er budd **iddo**
- caiff ei **hawliau** eu cynnal
- caiff ei **farn a'i brofiadau** eu clywed a'u parchu

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

- Cydgynhyrchu
- Ymgysylltu
- Profiad Beunyddiol
- **Eiriolaeth**
- Trothwyon
- Cydsyniad

Mae gan oedolion sydd ag **anghenion cyfathrebu** hawl i gael eiriolwr

Gall eiriolwyr fod yn **anffurfiol** (ffrind neu aelod priodol o'r teulu) neu gellir eu **comisiynu** gan yr awdurdod lleol (Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol)

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

- Cydgynhyrchu
- Ymgysylltu
- Profiad Beunyddiol
- Eiriolaeth
- **Trothwyon**
- Cydsyniad

Nid yw **trothwyon cyffredinol** yn bosibl am ein bod yn ymdrin ag **unigolion**.

Er mwyn i asesiadau risg **ganolbwyntio ar yr unigolyn**:

- rhaid asesu **pob achos** ar sail amgylchiadau'r unigolyn

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

- Cydgynhyrchu
- Ymgysylltu
- Profiad Beunyddiol
- Eiriolaeth
- **Trothwyon**
- Cydsyniad

- rhaid i ymarferwyr arfer eu **barn broffesiynol** wrth gadarnhau anghenion gofal, cymorth a/neu amddiffyn yr oedolyn
- mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o **rwystrau** o ran gwneud penderfyniadau cyson
- mae angen i ymarferwyr unigol fod yn ymwybodol o'u **rhagfarnau, eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain** sy'n effeithio ar eu canfyddiadau
- mae angen i oruchwylwyr **gydnabod a herio** rhagfarn, gwerthoedd a'r hyn mae ymarferwyr yn credu ynddo

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

- Cydgynhyrchu
- Ymgysylltu
- Profiad Beunyddiol
- Eiriolaeth
- Trothwyon
- **Cydsyniad**

- newid o 'arfer orau' i 'orfodol'
- **rhaid** cymryd bod gan yr oedolyn alluedd oni bai y cadarnhawyd fel arall
- nid yw hyn yn eithrio gweithwyr proffesiynol rhag cynnal **asesiadau cadarn**
- dylid rhoi ystyriaeth i **lefel yr orfodaeth** y gall yr oedolyn fod yn ei wynebu
- **rhaid** i unrhyw weithred a wneir neu benderfyniad a wneir ar gyfer oedolyn neu ar ei ran fod er ei **fudd gorau**

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

- Cydgynhyrchu
- Ymgysylltu
- Profiad Beunyddiol
- Eiriolaeth
- Trothwyon
- **Cydsyniad**

Ceisio cael cydsyniad yr oedolyn mewn perygl

- "***Nid*** yw dim cydsyniad yn golygu dim gweithredu"
- Rhaid sicrhau mai'r hyn sydd **er budd pennaf** yr oedolyn yw'r brif ystyriaeth
- Dylai unrhyw gamau a gymerir fod yn gymesur â'r risg o gam-drin.

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

- Cydgynhyrchu
- Ymgysylltu
- Profiad Beunyddiol
- Eiriolaeth
- Trothwyon
- **Cydsyniad**

Mae'r GDPR yn **caniatáu** i wybodaeth bersonol gael ei rhannu **heb gydsyniad** lle mae gofyniad cyfreithiol neu lle mae'r ymarferydd o'r farn ei fod er budd y cyhoedd, **gan gynnwys er mwyn atal cam-drin neu niwed difrifol i bobl eraill.**

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

## Gallwch **fynd yn groes i ddymuniadau'r** oedolyn os:

- Mae risg **uchel** i'r oedolyn
- Gall **pobl eraill** fod mewn perygl
- Amheuir y cyflawnwyd **trosedd**
- Mae'n ymddangos ei fod **o dan ddylanwad** unigolyn arall
- Mae'r pryderon yn ymwneud â methiant mewn gofal; torri cod ymddygiad; camdriniaeth yn y sefydliad

## Gallwch benderfynu **peidio â cheisio cydsyniad** os:

- gall arwain at **fwy o risg** i'r oedolyn
- gall arwain at yr oedolyn yn cael **ei fygwth neu ei orfodi** i gadw'n ddistaw
- gall arwain at dystiolaeth bwysig yn cael **ei dinistrio/ei cholli**
- y camdriniwr honedig **yw'r** gofalydd neu aelod o'r teulu
- **nid yw'r unigolyn am** i'w ofalydd fod yn rhan o'r broses
- mae **er budd y cyhoedd**

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

- Cydgynhyrchu
- Ymgysylltu
- Profiad Beunyddiol
- Eiriolaeth
- Trothwyon
- **Cydsyniad**

Wrth wneud hysbysiad <u>heb</u> gydsyniad, **rhaid i chi**:

- **Gofnodi'r** rheswm/rhesymau pam
- **Dweud** wrth y gwasanaethau cymdeithasol nad ydych wedi cael cydsyniad
  *D.S.: ni ddylai hyn olygu y caiff yr hysbysiad ei drin yn wahanol i un sydd â chydsyniad.*
- **Dweud** wrth yr oedolyn eich bod wedi gwneud hysbysiad er gwaethaf ei ddymuniadau

**Efallai yr hoffech chi gymryd saib** ar y pwynt hwn yn y cyflwyniad i edrych ar y wybodaeth am gydsyniad yn Adran 2 o'r gweithdrefnau

Adran 2 > Y ddyletswydd i adrodd am oedolyn sydd mewn perygl o gamdriniaeth a/neu esgeulustod > **Ceisio cydsyniad i hysbysu**

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Terminoleg

## rhai newydd, rhai wedi'u diweddaru

Nid yw'r term **'Oedolyn Agored i Niwed'** yn cael ei ddefnyddio mwyach.
Rydym bellach yn dweud:

# Oedolyn mewn Perygl

# Person Diogelu Dynodedig (DSP)

## Mae'n cyfeirio at yr unigolyn yn eich sefydliad:

- sydd ar gael i drafod pryderon diogelu
- y dylid ymgynghori ag ef a ddylid codi pryder diogelu â'r awdurdod lleol
- a fydd yn rheoli unrhyw gamau uniongyrchol sy'n ofynnol i sicrhau bod yr unigolyn mewn perygl yn ddiogel rhag niwed

Nid yw'r term '**Atgyfeirio**' yn cael ei ddefnyddio mwyach.
Rydym bellach yn dweud:

**Hysbysu**

# Dyletswydd i Hysbysu

**Mwy o eglurder a phwyslais ar gyfrifoldeb <u>pawb</u>** i hysbysu pryd bynnag y bydd **pryderon** neu **amheuon** diogelu.

Yn egluro ac yn esbonio bod

- dyletswydd (cyfreithiol) statudol ar bartneriaid perthnasol yr awdurdod lleol i hysbysu a phwy yw'r partneriaid hyn.
- **rhaid** i unrhyw un nad yw'n 'bartner perthnasol' **hysbysu** am unrhyw bryderon diogelu o hyd **yn yr un ffordd**

Mae gan bob ymarferydd gyfrifoldeb i hysbysu am unrhyw bryderon a godir gan y cyhoedd, yn ei fywyd **gwaith a phreifat**:

- Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn dweud wrth ymarferydd **yn rhinwedd ei swydd broffesiynol** am bryderon
- Pan fydd cymydog, aelod o deulu, ffrind neu gydnabod ymarferydd yn siarad am bryderon.
- **Ni ddylai ymarferwyr ddibynnu ar yr aelod o'r cyhoedd i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, na chynghori’r unigolyn i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol yn unig.**
- Os bydd aelod o'r cyhoedd yn trafod ei bryderon diogelu ag ymarferydd, naill ai yn rhinwedd ei swydd broffesiynol neu yn ei fywyd personol, mae **dyletswydd** ar yr ymarferydd **i hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol am y pryderon.**

# Adran 5

## Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Adran 5 : Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

- '**Rhan 4**' – bellach yn '**Adran 5**'
- Cwmpas wedi'i ehangu o ran **pwy** sydd wedi'i gynnwys
- Pwyslais cryfach ar y **ddyletswydd i hysbysu**
- Cwmpas wedi'i ehangu o ran **pryd** i ddilyn
- Pwyslais cryfach ar **sut** yr ymdrinnir â honiadau / pryderon o'r fath i sicrhau proses deg, gyson, amserol
- Pwyslais cryfach ar **bolisïau chwythu'r chwiban**

# Cwmpas wedi'i ehangu o ran **pwy** sydd wedi'i gynnwys

- **Unrhyw ymarferydd** a ddaw i gysylltiad ag oedolion mewn perygl yn rhinwedd ei waith
- Unigolion â **chyfrifoldebau gofalu** am oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, **ac** maent yn dod i gysylltiad ag oedolion mewn perygl yn eu gwaith cyflogedig neu wirfoddol
- Pobl mewn **Swyddi o Ymddiriedaeth**

# Person mewn Swydd o Ymddiriedaeth

Mae rhywun yn berson mewn swydd o ymddiriedaeth os yw'r **gwaith** a wna, neu **natur y gwasanaeth** y mae'n ei ddarparu, yn golygu:

- ei fod yn **debygol** o ddod i gysylltiad ag oedolion mewn perygl fel rhan o'i **waith cyflogedig neu wirfoddol**
- **bod yr oedolyn yn ei weld** fel rhywun mewn swydd o ymddiriedaeth, awdurdod, pŵer neu ddylanwad
- bod disgwyl iddo ddiogelu buddiannau oedolion mewn perygl

# Pwyslais cryfach ar y **ddyletswydd i hysbysu**

- **Rhaid hysbysu'r** gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am bryderon am ymddygiad ymarferydd / rhywun sydd mewn swydd o ymddiriedaeth

- Yn cynnwys **bywyd preifat** – ymddygiad sy'n peri pryder gan ffrind, aelod o'r teulu neu gymydog sydd hefyd yn ymarferydd / rhywun mewn swydd o ymddiriedaeth, **rhaid hysbysu'r** gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu

# Cwmpas wedi'i ehangu o ran **pryd** i ddilyn

Pryd bynnag y bydd pryderon neu honiadau

- o **gam-drin, esgeulustod neu niwed** yn erbyn y rhai sy'n dod i gysylltiad ag oedolion mewn perygl yn rhinwedd gwaith am dâl neu wirfoddol
- bod unigolyn yn **anaddas i weithio gydag** oedolion mewn perygl

# “Anaddas i Weithio Gydag Ef”

Gellir ystyried bod ymarferydd yn anaddas i weithio gydag oedolion mewn perygl os:

- Mae'n/roedd yn **destun gweithdrefnau troseddol** sy'n awgrymu risg o niwed
- **Mae wedi achosi niwed neu niwed posibl** i unrhyw oedolyn mewn perygl a gall beri risg yn ei amgylchedd gwaith, gwirfoddoli neu ofalu
- Mae wedi ymddwyn **yn ei fywyd personol** mewn ffordd a allai rhoi oedolion mewn perygl
- Mae wedi ymddwyn mewn ffordd a wnaeth **danseilio'r ymddiriedaeth** sydd ganddo drwy ei swydd
- Mae ganddo gyfrifoldebau gofalu am oedolion sy'n destun **Gweithdrefnau Diogelu**

# Adran 5 : Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Pwyslais cryfach ar **sut** yr ymdrinnir â honiadau / pryderon o'r fath i sicrhau proses **deg, gyson, amserol**

Pwyslais cryfach ar **bolisïau chwythu'r chwiban**, gan gynnwys sicrhau bod gan bob sefydliad weithdrefn chwythu'r chwiban, gan gynnwys ar gyfer **gwirfoddolwyr**.

# Adran 5 : Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a’r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

## Gellir eu rhedeg **ar y cyd** â, neu **ar wahân** i'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Oedolion mewn Perygl

**Gweithdrefnau ar gyfer ymateb i honiadau /pryderon diogelu ynghylch ymarferwyr a'r rhai hynny mewn swyddi o ymddiriedaeth**

↓

Mae'r ffocws ar **ymarferydd neu berson mewn swydd o ymddiriedaeth** yr amheuir ei fod yn **achosi** cam-drin, esgeulustod neu niwed

**Gweithdrefnau Diogelu Cymru**

↓

Mae'r ffocws ar **oedolyn mewn perygl** o **brofi** camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

**Protocolau mewnol**

↓

Proses fewnol gan gyflogwr

# Adran 5 : Honiadau / Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth

## Cyfarfod Strategaeth Broffesiynol am Ganlyniadau

### Wedi'i brofi

**tystiolaeth annigonol** i brofi'r honiad

### Di-sail

mae'r unigolyn a wnaeth yr honiad wedi **camddehongli'r** digwyddiad, mae wedi **camgymryd** yr hyn a welodd, neu **nad oedd yn ymwybodol** o'r holl amgylchiadau

### Heb ei brofi

mae **tystiolaeth annigonol** i brofi neu wrthbrofi'r honiad

### Wedi'i ffugio'n fwriadol/maleisus

**tystiolaeth eglur** i brofi bod yr honiad yn gwbl ffug a bod **gweithred fwriadol i dwyllo** wedi bod

# Protocol Rhanbarthol Newydd ‘Adran 5’

- **yn nodi'r trefniadau** ar gyfer ymateb i bryderon diogelu mewn perthynas â phobl y mae eu gwaith, boed am dâl neu'n wirfoddol, yn golygu y byddant yn dod i gysylltiad â phlant neu oedolion mewn perygl
- **yn cefnogi** gweithdrefnau disgyblu **mewnol** asiantaeth eu hunain
- **yn rhoi canllawiau** er mwyn ymdrin ag unrhyw bryderon neu honiadau o gam-drin neu esgeulustod proffesiynol yn briodol ac er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â honiadau o gam-drin a wneir yn erbyn staff neu wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl mewn **ffordd deg, gyson ac amserol.**

**Efallai yr hoffech chi gymryd saib** ar y pwynt hwn yn y cyflwyniad i edrych ar **Adran 5**

- Sut i hysbysu am ymarferydd – beth i'w wneud / na ddylid ei wneud
- Beth i'w wneud os caiff honiad ei wneud yn eich erbyn chi – eich hawliau a beth i'w wneud / na ddylid ei wneud

# Hysbysydd

**Unrhyw ymarferydd neu aelod o'r cyhoedd** sy'n hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol am bryderon diogelu

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn **disgrifio** ei **rôl a'r disgwyliadau** yn glir.

# Derbynnydd yr Hysbysiad

Yr **ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol** sy'n cael yr adroddiad, yn cwblhau gwiriadau cychwynnol ac yn penderfynu a oes angen gweithredu ar unwaith

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn disgrifio ei rôl a'i gyfrifoldebau yn glir.

**Newid allweddol** : Dylai'r Awdurdod Lleol gydnabod yn ysgrifenedig ei fod wedi cael yr hysbysiad (atgyfeiriad) o fewn saith diwrnod gwaith

# Ymholiadau A126

- **Yn pennu'r** camau i'w cymryd er mwyn sicrhau diogelwch yr oedolyn
- Gellir eu cynnal mor aml ac am gyhyd ag y bo angen
- Gall awdurdodau lleol ddirprwyo ymholiadau, ond mae **dyletswydd statudol** arnynt o hyd i sicrhau y cânt eu cynnal mewn modd cymwys
- Canllawiau penodol ar yr hyn y **dylai** ymholiadau A126 **ei gynnwys**
- Yn nodi 5 sefyllfa benodol yn glir lle y dylid gweld yr oedolyn **ar yr un diwrnod**

# Ymholiadau A126 – Penderfyniadau

**Tri phenderfyniad (canlyniad) yn dilyn ymholiadau:**

- Amddiffyn Ar Unwaith.
- Nid yw'r oedolyn mewn perygl ond gall fod ganddo anghenion gofal a chymorth.
- Oedolyn mewn perygl ac mae angen gweithredu i'w amddiffyn

Gellir hefyd benderfynu dim camau pellach – nid yw'r oedolyn mewn perygl ac nid oes unrhyw anghenion gofal a chymorth nad ydynt yn cael eu diwallu wedi cael eu nodi

# Trafodaeth / Cyfarfod am Strategaeth

- Yn cael eu cynnal pan mae **ymholiadau A126** yn dod i'r casgliad bod rheswm da dros amau bod oedolyn mewn perygl o gamdriniaeth
- O fewn **7 diwrnod gwaith** i gasgliad ymholiadau A126, oni bai bod angen gweithredu ar unwaith
- **Yn cael eu cynnal** dros y ffôn, fideogynadledda neu wyneb yn wyneb
- **Yn adolygu'r** pryderon am gam-drin a/neu esgeulustod o ran yr oedolyn mewn perygl ac oedolion eraill neu blant mewn perygl

Nid yw'r term **‘Cynhadledd Achos’** yn cael ei ddefnyddio mwyach. Rydym bellach yn dweud:

# Cynhadledd Amddiffyn Oedolion

# Cynhadledd Amddiffyn Oedolion

Newid i **broses** y gynhadledd, gan gynnwys:

- Dylai'r rhai a fydd yn bresennol gyflwyno **adroddiad ysgrifenedig** i'r cadeirydd **2 ddiwrnod gwaith** ymlaen llaw
- Canllawiau clir ar **sut** i ysgrifennu'r adroddiad a **beth i'w gynnwys**
- Disgwyliad clir i'r **adroddiadau gael eu rhannu â'r oedolyn mewn perygl** cyn ac ar ôl y gynhadledd
- Dylai cofnodion o'r cynadleddau roi **manylion** am y drafodaeth a'r casgliad(au) a **thystiolaeth**
- Dylid **anfon** y cofnod **at yr oedolyn mewn perygl** lle y bo'n briodol

# Cynhadledd Amddiffyn Oedolion

**Yn pwysleisio disgwyliadau a chanllawiau clir** ar gyfer hwyluso presenoldeb a **chyfranogiad** yr oedolyn mewn perygl

- nad yw presenoldeb yn y gynhadledd yn **gyfystyr â chymryd rhan**
- bod oedolion mewn perygl yn cael cynnig **eiriolwr annibynnol** ac yn cael ei gefnogi gan yr unigolyn hwnnw drwy gydol y broses.
- dylai'r oedolyn mewn perygl **lywio** datblygiad y cynllun diogelu gofal a chymorth.
- beth i'w wneud os nad yw'r oedolyn am ddod

Nid yw'r term **‘Rheolwr Arweiniol Dynodedig (DLM)’** yn cael ei ddefnyddio mwyach. Rydym bellach yn dweud:

**Cydlynydd Arweiniol**

# Cydlynydd Arweiniol

**Manylion y rôl a chyfrifoldebau**, gan gynnwys:

- **yn cymryd lle ac yn ehangu** rôl a swyddogaeth flaenorol y DLM
- **rhaid** ei fod wedi'i gyflogi yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a, lle y bo'n bosibl, yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru
- mewn rhai amgylchiadau gall y rôl gael ei dirprwyo i asiantaeth arall (h.y. iechyd) OND **yr awdurdod lleol** fydd â chyfrifoldeb statudol o hyd.
- yn sicrhau bod cynhadledd amddiffyn oedolion yn cael ei **chynnull, ei chadeirio a'i chofnodi**
- yn sicrhau bod y **broses** amddiffyn oedolion **yn cael ei dilyn** ac yn **monitro cynnydd**
- yn rhoi manylion am ofynion os caiff y rôl ei dirprwyo

# Ymarferydd Arweiniol

*ymarferydd cynllun diogelu gofal a chymorth arweiniol*

- **rhaid** meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'r rôl
- yn **arwain gwaith amlasiantaethol**
- **yn ymgysylltu** â'r oedolyn ac yn **gweithio mewn partneriaeth** ag ef
- yn gweld yr oedolyn o fewn **5 diwrnod gwaith** o leiaf i'r cyfarfod am strategaeth;
- yn sicrhau bod yr oedolyn yn cael cyfle i siarad ar ei ben ei hun o leiaf **bob 4 wythnos**
- **yn sicrhau cyfraniad** gan yr oedolyn mewn perygl i ddatblygiad y cynllun
- yn sicrhau bod y cynllun yn nodi **anghenion gofal a chymorth holistaidd** yr oedolyn

Nid yw'r term **‘Cynllun Amddiffyn Unigol’** yn cael ei ddefnyddio mwyach. Rydym bellach yn dweud:

**Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth**

# Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth

- **pwyslais** ar elfennau **diogelu ac amddiffyn** y cynllun
- **yn canolbwyntio ar yr unigolyn** – rhoddir sylw difrifol i'r **canlyniadau a ddymunir gan yr oedolyn**
- **yn seiliedig ar gryfderau** – caiff ffactorau amddiffynnol a chryfderau'r oedolyn a'r teulu eu **cydnabod a'u defnyddio**
- dylai gynnwys yr **holl elfennau sy'n ofynnol** o dan Ran 4 o'r Ddeddf

# Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth

## Rhaid i ymarferwyr wneud yn siŵr bod:

- **yn union** yr hyn y mae'r broses yn ceisio ei gyflawni yn glir ar y cam cynharaf posibl
- y **gwahaniaeth** rhwng y gweithgaredd (allbwn) sy'n gysylltiedig â'r broses a'r canlyniad ei hun yn cael ei ddeall yn glir
- **mesurau cynnydd** yn cael eu fframio o ran gwelliannau a ddisgwylir i **brofiad beunyddiol** yr oedolyn
- **rhesymeg** y cynllun yn cael ei deall gan yr oedolyn mewn perygl a'i ofalwyr

# Ymarfer Diogelu Effeithiol

Mae disgwyl i **bob person** a ddaw i gysylltiad ag oedolion mewn perygl, eu gofalyddion a'u teuluoedd neu sy'n gweithio gyda nhw:

- ddeall y **broses ddiogelu**
- deall ei **rôl a'i gyfrifoldebau** i ddiogelu
- yn gyfarwydd â gweithdrefnau a phrotocolau ei **sefydliad** ar gyfer diogelu ac yn eu dilyn

# Ymarfer Diogelu Effeithiol

- yn **effro i arwyddion** o gam-drin ac esgeulustod
- yn gallu **defnyddio** Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chydymffurfio â nhw
- yn gwybod **pryd a sut** i hysbysu am unrhyw bryderon
- yn gweithio **ar y cyd** â'r oedolyn mewn perygl, gofalyddion a theuluoedd
- yn ymrwymedig i **gydweithio'n** llawn â'r holl asiantaethau eraill er mwyn diogelu oedolion mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod

# Anghenion Ymarferwyr

Cydnabyddiaeth er mwyn i chi allu rhoi system ddiogelu effeithiol ar waith, mae angen y canlynol arnoch:

- **y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol** – Dylai pob ymarferydd fod wedi'i hyfforddi i lefel sy'n addas i'w rôl a'i gyfrifoldebau.
- **i chi gael eich cefnogi** gan Reolwyr a Byrddau Diogelu Rhanbarthol.
- **amgylchedd gwaith** sy'n arwain at system ddiogelu effeithiol

# Anghenion Ymarferwyr

- gallu arfer eich **barn broffesiynol**
- gallu **cael cyngor yn uniongyrchol** ynghylch unrhyw bryderon am oedolyn
- gallu gweithredu mewn modd **amlasiantaethol a chydweithredol**
- gallu **cael gafael ar arweinyddiaeth strategol broffesiynol** sy'n eich cefnogi

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Y Camau Nesaf …

# Pethau i'w Hystyried...

- Sut y byddwch chi'n **cael gafael ar** Weithdrefnau Diogelu Cymru, yn eu **defnyddio** ac yn eu **hymgorffori** yn eich ymarfer (os nad ydych chi wedi gwneud hynny'n barod)?
- Pa agweddau ar y gweithdrefnau sy'n **arbennig o berthnasol / hanfodol** i'r ffordd bresennol o weithio yn ystod COVID-19?
- **Yn y dyfodol**, pa agweddau eraill ar y gweithdrefnau a allai fod yn arwyddocaol i'ch gwaith/ymarfer?
- Pa agweddau ar eich gwaith (os o gwbl) y gall fod angen eu **haddasu** i'r ffordd hon o weithio? Sut y gellid gwneud hyn?

# Rhowch eich adborth

Byddai **Partneriaeth Diogelu Gwent** wir yn gwerthfawrogi eich adborth ar yr adnodd hwn, gan gynnwys a oedd yn ddefnyddiol i chi ai peidio, ac ati.

Mae **ffurflen werthuso fer** i'w gweld ar y wefan wrth ymyl y ddolen i'r fideo hwn a dylai ond gymryd 5 munud i'w llenwi

# Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi drafod unrhyw agweddau ar y gweithdrefnau newydd, cysylltwch â **'Hyrwyddwr'** eich asiantaeth neu eich tîm ar gyfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru

*D.S.: Fel arfer bydd hyn yn rhywun yn eich tîm sydd wedi'i nodi fel 'Hyrwyddwr' gweithdrefnau, a aeth i sesiwn friffio Gweithdrefnau Diogelu Cymru Diogelu Gwent, ac a hwylusodd y gwaith o raeadru/lledaenu'r cyflwyniad hwn a'r 'Canllawiau Cyflym i Newidiadau Allweddol'.*